Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru - Polisi

Teitl: TWYLL, LLYGREDD NEU GAMDDEFNYDDIO

Cyflwyniad

Yn y cylchlythyr ar Reolaeth Fewnol (Cylchlythyr 028/09), dywedodd Cyfarwyddiaeth Tai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

1.1 Y Bwrdd sy'n gyfrifol am systemau rheoli mewnol da sydd â rôl ymddiriedol o ddiogelu asedau'r Gymdeithas

1.2 Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am osgoi colled drwy gamreoli ac atal twyll a llygredd. Mae'n rhaid felly i gymdeithasau wneud trefniadau addas i sicrhau fod systemau a gweithrediad rheolaeth fewnol yn effeithiol.

Mae gan y Gymdeithas ymrwymiad i safonau uchel yn gyfreithiol, moesegol a moesol ac mae'n disgwyl i'r holl staff ac Aelodau Bwrdd rannu'r ymrwymiad hwn.

Nod y ddogfen hon, ynghyd â gweithdrefn datgeliadau er budd y cyhoedd ("chwythu'r chwiban") a'r llawlyfr staff, yw rhoi cyfeiriad a help i staff a chyfarwyddwyr sy'n gorfod delio gydag achosion o amheuaeth twyll, llygredd neu gamddefnyddio.

Datganiad Polisi

Mae Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru yn ymrwymedig i gadw'r safonau uchaf o gywirdeb, agoredrwydd ac atebolrwydd. Ni fydd y Gymdeithas yn goddef unrhyw dwyll a bydd yn:

- Cymryd camau gweithredu cadarn a grymus lle'n addas yn erbyn unrhyw unigolyn neu grŵp sy'n cyflawni twyll yn erbyn y sefydliad.
- Annog cyflogeion i fod yn ofalgar a'i hysbysu os amheuir twyll.
- Ymchwilio achosion o dwyll yn drwyadl a gweithredu yn erbyn y rhai sy'n cyflawni twyll i geisio adfer unrhyw ased a gafwyd drwy dwyll ynghyd ag adennill costau.
- Cynorthwyo'r heddlu ac awdurdodau eraill addas i ymchwilio ac erlyn y rhai a amheuwyd o dwyll.

Mae gan y Gymdeithas weithdrefnau ar gyfer atal, canfod a hysbysu am dwyll a gynlluniwyd i ostwng tebygrwydd twyll. Mae gan y Gymdeithas hefyd weithdrefnau fydd yn hwyluso delio gyda thwyll, yn cynnwys cadw ac adennill asedau.

Nod y Gymdeithas yw helpu i atal a chanfod twyll, a rhoi cyfeiriad ac arweiniad i Aelodau, Cyfarwyddwyr, Rheolwyr ac aelodau staff pan fyddant yn delio ag achosion lle amheuir twyll.

Cefnogir y Polisi gan nifer o ddogfennau allweddol eraill yn cynnwys trefniadau Llywodraethu'r Gymdeithas (yn arbennig yng nghyswllt ymddygiad y Bwrdd, derbyn rhoddion a gwrthdaro diddordeb), y Rheoliadau Ariannol, Cynllun Dirprwyo, Rhestr Awdurdod a Ddirprwywyd, y Strategaeth Caffael, Telerau ac Amodau Cyflogaeth a chanllawiau eraill yn arbennig yng nghyswllt chwythu'r chwiban (yn cynnwys yr holl ddeddfwriaeth berthnasol) a'r Cod Ymddygiad, a mesurau rheoli eraill.

Bydd y Gymdeithas yn sicrhau y caiff pob pryder ei ymchwilio'n gywir ac y caiff Aelodau a staff (yn arbennig y rhai sy'n rhoi adroddiad am eu hamheuon) eu diogelu rhag dial a/neu erledigaeth yn unol gyda'i bolisi "chwythu'r chwiban". Yn dilyn ymchwiliad cywir, gall fod angen dechrau ar gamau disgyblu, trafodion sifil neu drafodion llys yn cynnwys camau i adennill unrhyw golledion a gafwyd.

Rhoddir adroddiad manwl am bob achos o dwyll gwirioneddol neu dwyll a amheuir i'r Pwyllgor Craffu ac i'r Bwrdd. Bydd Twyll, Llygredd neu Gamddefnyddio yn eitem sefydlog ar y Pwyllgor Craffu o leiaf yn flynyddol, p'un ai a fu achosion o'r fath ai peidio.

Cynlluniwyd y polisi hwn a'i weithdrefnau i fod yn gyson â strategaeth adnoddau dynol y Gymdeithas, yn neilltuol bob elfen o'r gweithdrefnau disgyblaeth. Os bydd unrhyw anghysondeb, bernir mai'r gweithdrefnau disgyblaeth fydd yn cael blaenoriaeth, os na hysbysir i'r gwrthwyneb gan yr heddlu neu gorff ymchwilio allanol arall (e.e. y Gyfarwyddiaeth Tai).

Diffiniadau:

Nid oes diffiniad cyfreithiol manwl-gywir o dwyll. Gall y gair twyll gael ei ddefnyddio i ddisgrifio gweithred fwriadol i gaffael, neu geisio caffael, asedau neu eiddo rhywun arall drwy dwyll, ystryw neu anonestrwydd a daw llawer o'r troseddau o fewn Deddfau Lladrad 1968 a 1978. Hefyd, yn ychwanegol at y drosedd gyfraith cyffredin bresennol o gynllwynio i dwyll, mae Deddf Twyll 2006 yn darparu am drosedd gyffredinol o dwyll a thair ffordd o gyflawni hynny: cynrychiolaeth ffug, methiant i ddatgelu gwybodaeth, camddefnyddio safle.

Ar gyfer diben y polisi hwn, bydd twyll (fydd yn cynnwys llwgrwobrwyo a/neu lygredd) yn cynnwys ond heb ei gyfyngu i:

Camddefnyddio Asedau
- Torri mandadau banc, dwyn arian a sieciau, defnyddio cyfrifon banc 'ffug';
- Cynllwynio gyda chwsmeriaid/cyflenwyr;
- Gwerthu asedau ar brisiau wedi'u gostwng neu eu chwyddo yn artiffisial;
- Yn wybodus gyflwyno treuliau neu hawliadau milltiroedd neu hawliadau eraill ffug;
- Camddefnyddio unrhyw asedau, yn cynnwys Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a/neu dorri diogelwch TGCh (gweler polisïau TGCh perthnasol);
- Peidio dychwelyd unrhyw daliadau a gafodd eu gwneud ddwywaith neu ordaliadau.

Llygredd
- Llwgrwobrwyo;
- Gwrthdaro diddordeb (e.e. cyfarwyddiaethau allanol, cymryd rhan mewn trafodion personol a allai effeithio ar y busnes, eithrio eitemau a ddatgelwyd ac a dderbyniwyd dan ddatgeliad Atodlen 1 - gweler canllawiau pellach yn y dogfennau Llywodraethu);
- Lladrad neu gylchredeg/ailgynhyrchu dogfennau neu wybodaeth gyfrinachol y sefydliad, yn cynnwys gwybodaeth ariannol, heb awdurdod;

- Derbyn/talu cymhellion/rhoddion/adloniant y tu allan i bolisi perthnasol y Gymdeithas.

Datganiadau Twyllodrus
- Llurgunio gwybodaeth i wella perfformiad tebygol.
- Ymyrryd gyda dyledwyr, credydwyr, llyfrau cyfrifon neu wybodaeth ariannol arall.

Trydydd Parti
Mae'r polisi yma hefyd yn ymestyn i gynnwys twyll a gyflawnwyd gan drydydd parti megis tenantiaid a phreswylwyr, a chontractwyr a chyflenwyr yn erbyn trydydd parti arall megis awdurdodau lleol, contractwyr a chyflenwyr.

Gwyngalchu Arian
Mae gwyngalchu arian yn cynnwys cuddio, trosi a throsglwyddo eiddo troseddol. Mae eiddo troseddol yn arian neu eiddo arall sy'n cynrychioli budd person o weithgaredd troseddol yr ydych yn gwybod neu'n amau ei fod yn cynrychioli budd o'r fath. Dylid ystyried gwyngalchu arian yn weithgaredd y dylai'r polisi gwrth-dwyll a gweithdrefnau cysylltiedig fod yn berthnasol iddo.

Meysydd Perfformiad Allweddol

A. Bydd y Cyfarwyddydd Gwasanaethau Corfforaethol, mewn cysylltiad gyda'r Tîm Rheolaeth Weithredol, yn sefydlu gweithdrefnau a gofynion hyfforddiant i sicrhau bod mesurau rheoli mewnol yn effeithiol ac yn lleihau'r risg o dwyll, llygredd neu gamddefnyddio.

B. Bydd y Cyfarwyddydd Gwasanaethau Corfforaethol, mewn cysylltiad gyda Chyfarwyddwyr eraill a'r Tîm Rheoli Gweithredol, yn hyrwyddo'r safonau uchaf mewn cywirdeb, agoredrwydd ac atebolrwydd.

C. Bydd y Pwyllgor Craffu yn adolygu'r Gofrestr Twyll ym mhob cyfarfod.

Pwrpas:	Lleihau risgiau twyll, llygredd neu gamddefnydd drwy system addas o fesurau rheoli sy'n rheoli a thrin lefel y risg fel y gellir cario'r risg gweddilliol ar ôl unrhyw gamau lliniaru heb achosi difrod parhaol i'r Gymdeithas.
Cyfeirnod:	
Dyddiad Cyhoeddi**:**	Ionawr 2011 Hydref 2009
Dyddiad Adolygu:	Bob tair blynedd; Ionawr 2014
Adrannau/Unedau yr effeithir arnynt:	Cyfan
Cymeradwywyd gan:	I'w ystyried gan y Bwrdd, Ionawr 2011
Swyddog Arweiniol:	Cyfarwyddydd Gwasanaethau Corfforaethol
Cydymffurfiaeth Statudol	• Gofyniad Cyfarwyddiaeth Tai, Llywodraeth Cynulliad Cymru • Rheoliadau Gwyngalchu Arian 2003 a 2008; Deddf Trafodion Troseddu 2002; Deddfau Lladrad 1968 a 1978; Deddf Twyll 2006.

Ffactorau Risg Strategol	Gweler y Map Risg Sylweddol Buses
Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb	***Sut mae/fydd y polisi hwn yn sicrhau y caiff anghenion eu cyflawni'n deg yn neilltuol yng nghyswllt hil, rhyw, anabledd ac ati?*** Dim yn berthnasol. ***A deimlir y medrai'r polisi fod ag effaith niweidiol ar wahanol grwpiau. Os felly, beth yw'r cyfiawnhad am hyn ac a oes caniatâd cyfreithiol drosto?*** Ni ddisgwylir yr effeithir yn niweidiol ar unrhyw grwpiau neu unigolyn. ***A ymgynghorwyd â grwpiau cynrychioladol yn yr ardal am eu barn ac os felly, beth oedd y canlyniad?*** Na.
Cyswllt Tenantiaid	***Sut mae/sut fydd y polisi hwn yn sicrhau y caiff anghenion tenantiaid eu diwallu?*** Amcan y polisi yw sicrhau yr optimeiddir risg er budd tenantiaid presennol a thenantiaid y dyfodol. ***Sut y teimlir y bydd y Polisi yn effeithio ar hawliau a goblygiadau tenantiaid?*** Ni ragwelir y bydd y polisi yma'n effeithio ar hawliau ac oblygiadau tenantiaid. ***A ymgynghorwyd â thenantiaid ac a roddwyd ystyriaeth i ganlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw wrth ystyried cyflwyno'r Polisi yma?*** Ar hyn o bryd, ni ymgynghorwyd â thenantiaid ar y polisi yma. Nid oedd y Polisi yn un o'r rhai y dymunai'r Fforwm Tenantiaid a Phreswylwyr gael ymgynghoriad arno yn ystod 2009/10.